RHIFYN
ISSUE
05

Llais Llantrisant

25.03.19

TRWYNAU COCH
RED NOSE DAY

Unwaith eto, mae cymuned yr ysgol wedi codi swm anhygoel at elusen. Codwyd £650 at elusen Trwynau Coch. THANK YOU!

Once again, the school community has raised an outstanding sum of money for charity. We raised £650 on Red Nose Day. DIOLCH!



GWASANAETH ARBENNIG
SPECIAL ASSEMBLY

Diolch yn fawr iawn i Mr Adam Coleman a ddaeth i'r ysgol ar Fawrth 15fed i gynnal gwasanaeth ysgol gyfan.

Many thanks to Mr Adam Coleman who visited school on March 15th to hold a whole school assembly.



NOSWEITHIAU AGORED
OPEN EVENINGS

Cofiwch wneud apwyntiad ar gyfer y Nosweithiau Agored ar Ebrill 9fed a 10fed os gwelwch yn dda. Mae'r system ar agor ar y Moodle tan Ebrill 5ed. Unrhyw broblemau, cysylltwch â'r athrawon dosbarth trwy nodyn os gwelwch yn dda.

Remember to book your Open Evening appointments for April 9th and 10th please. The system is open on the Moodle until April 5th. Any problems, please contact the class teachers by note.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

28.03.19 - Trip Bl. 3 a 4 - Amgueddfa Abertawe
Yr. 3 & 4 Trip - Swansea Bay Museum
03.04.19 - PC Lloyd yn ymweld - Blwyddyn 3 a 4
PC Lloyd visits - Year 3 and 4
04.04.19 - Gêm Bêl-droed - Merched CA2
Football game - KS2 girls
09.04.19 - Nosweithiau Agored
10.04.19 *Open Evenings*
11.04.19 - Gêm Bêl-droed - Bechgyn CA2
Football game - KS2 boys

ASESIADAU CENEDLAETHOL
NATIONAL ASSESSMENTS

Cynhelir yr Asesiadau a Phrofion Cenedlaethol ar gyfer plant Blynyddoedd 2 i 6 rhwng Mai 7fed a 14eg 2019. Mae trefniadau'r prawf rhifedd gweithdrefnol yn wahanol eleni gan ei fod yn cael ei weinyddu ar-lein. Gall ysgolion weinyddu'r prawf ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Sylwch o'r amserlen ein bod wedi amserlennu'r asesiad yma yn ystod yr un cyfnod â'r profion eraill. Cadwch y dyddiadau hyn yn glir os gwelwch yn dda.

The National Assessments and Tests for children in Years 2 to 6 will be held between May 7th and 14th in 2019. The arrangements for the procedural numeracy assessment are different this year since they are to be administered online. Schools are able to administer this test at any point during the school year. You will notice from the timetable that this assessment has been timetabled for around the same period as the other tests. Please keep these dates clear.

Gwybodaeth i Rieni (Llywodraeth Cymru)
Information for Parents (Welsh Government)

Dyddiad *Date*	Dechrau *Beginning*	Prawf *Test*	Blwyddyn / Dosbarth *Year Group / Class*
06.05.19		Gŵyl y Banc *May Day*	
07.05.19	9:30	Darllen (Saesneg) Reading (English)	Blwyddyn 4 i 6 *Years 4 to 6*
08.05.19		DIM PRAWF *NO TEST*	
09.05.19	9:30	Darllen (Cymraeg) Reading (Welsh)	Blwyddyn 2 i 6 *Years 2 to 6*
10.05.19		DIM PRAWF *NO TEST*	
13.05.19	9:30	Mathemateg - Rhesymu *Maths. Reasoning*	Blwyddyn 2 i 6 *Years 2 to 6*
14.05.19	Bydd cyfle i blant oedd yn absennol ar gyfer un o'r profion ar bapur eu sefyll heddiw. Ni fydd cyfle arall wedi'r diwrnod hwn. *There will be an opportunity for pupils to sit any missed paper based test today. There will be no opportunity after this day.*		
15.05.19		DIM PRAWF *NO TEST*	
16.05.19	9:30	Mathemateg - Gweithdrefnol *Maths. - Procedural*	Dosbarth 5 (Mrs Hulse)
17.05.19	9:30	Mathemateg - Gweithdrefnol *Maths. - Procedural*	Dosbarth 6 (Miss Thomas)
20.05.19	9:30	Mathemateg - Gweithdrefnol *Maths. - Procedural*	Dosbarth 7 (Mrs Jenkins)
21.05.19	9:30	Mathemateg - Gweithdrefnol *Maths. - Procedural*	Dosbarth 8 (Miss Williams)
22.05.19	9:30	Mathemateg - Gweithdrefnol *Maths. - Procedural*	Dosbarth 9 (Miss Jones)
23.05.19	9:30	Mathemateg - Gweithdrefnol *Maths. - Procedural*	Dosbarth 10 (Mrs Flower)
24.05.19	9:30	Mathemateg - Gweithdrefnol *Maths. - Procedural*	Dosbarth 11 (Mrs Williams)

Eleni, gan fod trefniadau gweinyddu'r asesiad Mathemateg Gweithdrefnol ychydig yn wahanol, bydd yr asesiad hwn yn cael ei weinyddu yn electronig yn ystod yr wythnos 15.05.19 hyd at 24.05.19. Bydd cyfle i unrhyw blentyn sy'n absennol ar gyfer yr asesiad hwn ei gwblhau unrhywbryd ar ôl Hanner Tymor.
This year, since the arrangements for the Mathematics Procedural assessment are slightly different, this assessment will be conducted electronically during the week 15.05.19 to 24.05.19. Any child who misses this assessment will be able to undertake it any time after Half Term.

YMWELIAD FFITCYMRU
FFITCYMRU VISITS SCHOOL

Gwelwyd cyffro mawr yn yr ysgol ar Fawrth 3ydd pan ddaeth camerau teledu a Dietegydd rhaglen Ffit Cymru i'r ysgol i siarad â phlant y Cyfnod Sylfaen. Daeth Mrs Quirke, rhiant yn yr ysgol, atom i lansio ymgyrch newydd y rhaglen. Edrychwn ymlaen at weld y plant ar y sgrîn fach ar Ebrill 2ail! Hoffem achub ar y cyfle i atgoffa pawb ein bod yn rhan o gynllun Ysgolion Iach ac wedi ennill gwobrau am waith caled y staff a'r plant yn y maes yma. Felly gofynnwn nad yw'r plant yn dod â losin / siocled i'r ysgol ar gyfer byrbryd neu mewn cinio pecyn, os gwelwch yn dda. *There was great excitement in school on March 3rd when television cameras and the Dietitian from the programme Ffit Cymru visited us to talk to the Foundation Phase pupils. Mrs Quirke, a parent at school, visited to launch the programme's new campaign. We look forward to seeing the children on the small screen on April 2nd! We'd like to take advantage of this opportunity to remind everyone that we are part of the Healthy Schools initiative and award winners due to the pupils' and staff's hard work in this area. So we ask that the children don't bring sweets / chocolate to school as snacks or as part of a packed lunch, please.*



Ysgolion Iach
Cwm Taf
Healthy Schools

@YsgolionIachCT

CLYBIAU ALLGYRSIOL
AFTER SCHOOL CLUBS

Braf yw gweld cymaint o blant yn mwynhau ar ôl ysgol yng nghwmni nifer o staff yr ysgol a gwirfoddolwyr. Rhydd hyn gyfleoedd i'r plant gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Un pwrpas y Siarter Iaith yw i'r plant ddeall mai nid iaith yr ystafell ddosbarth yn unig yw'r Gymraeg! Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i'r staff a'r gwirfoddolwyr am roi o'u hamser i gynnal y clybiau hyn. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau fod y staff sy'n cynnal y clybiau yn cael gwybod os nad yw'ch plentyn yn aros trwy anfon nodyn atynt. Mae hyn yn holl bwysig.

It's great to see so many pupils enjoying themselves after school in the company of a number of members of staff and volunteer helpers. This affords the pupils the opportunity to socialise through the medium of Welsh. One purpose of the Welsh Language Charter is to help the children understand that Welsh is not just the language of the classroom! School is most grateful to the staff and volunteers for giving of their time so freely to hold these clubs. We kindly ask that a note is sent to the staff holding these clubs if any child is not staying for the club. This is most important.



Garddio / *Gardening*



Côr / *Choir*

Cofiwch ymweld â / *Visit us*: www.yggglantrisant.cymru

CYNLLUN RHEOLI TRAFFIG
TRAFFIC MANAGEMENT PLAN

Yn ddiweddar, adolygwyd Cynllun Rheoli Traffig yr ysgol er mwyn rheoli symudiad traffig o gwmpas ac ar safle'r ysgol. Mae'r ysgol yn atgoffa pawb yn aml am y pwysigrwydd o beidio â gyrru i mewn i faes parcio'r ysgol a bae bysiau'r ysgol o gwbl. Mae hyn yn cynnwys rhieni a theuluoedd sydd yn gollwng plant yn y clwb brecwast yn yr Ystafell Gymunedol sy'n agor am 7:30 yb. Yr unig ymwelwyr sydd â'r hawl i yrru i mewn i'r maes parcio ar unrhyw adeg yw'r bobl sydd ag anhawsterau mudoledd ac sydd wedi trafod hyn gyda'r ysgol, os gwelwch yn dda. Unwaith eto, gofynnwn yn garedig am gydweithrediad pawb. Gweler y Cynllun Rheoli Traffig yma.

Recently, the school's Traffic Management Plan was revised to control the movement of traffic around and on the school site. School regularly reminds everyone of the importance of not driving into the school car park and bus bay at all. This includes parents and families who may be dropping children off at the Breakfast Club held in the Community Room which opens at 7:30 am. The only visitors who are permitted to drive into the school car park at any time are those who have mobility issues and have discussed this with the school, please. Once again, we kindly ask for everyone's cooperation. View the Traffic Management Plan here.

YR EISTEDDFOD SIR
THE COUNTY EISTEDDFOD

Ymddygiad a pherfformiadau arbennig o dda, unwaith eto! Gwelwyd safon uchel iawn i berfformiadau'r plant a hoffem ddiolch i'r disgyblion, i'r staff am eu hyfforddi ac i bawb a ddaeth ar y dydd i gefnogi. Ymlaen â'r plant buddugol a ddaeth yn gyntaf i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd yn ystod hanner tymor Sulgwyn.

Excellent conduct and fantastic performances once again! There was a very high standard to the pupils' performances and we should like to thank the pupils, the staff for coaching them and everyone who came along to support on the day. The successful children who came first now go on to the Urdd National Eisteddfod in Cardiff Bay during the Whitsun half term holiday.

Côr / *Choir*	**1af** *1st*
Parti Deulais / *Two Voice Party*	**1af** *1st*
Parti Unsain / *Unison Party*	**1af** *1st*
Unawd Bl.2 ac Iau / *Solo Yr.2 and under*	**1af** *1st*
Unawd Bl.3 a 4 / Yr.3 & 4 Solo	**2ail** *2nd*
Deuawd Bl.6 ac Iau / *Duet Yr.6 and under*	**2ail** *2nd*

RYGBI
RUGBY

Ar 07.03.19 aeth tîm rygbi'r ysgol i Ysgol Dolau i chwarae gêm bwysig oedd yn penderfynu pa ysgol fyddai'n symud ymlaen i rownd derfynol ysgolion Cymru ar 05.04.19 yng Nghlwb Rygbi, Dunvant. Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn am dynnu at ei gilydd yn yr ail hanner ac ennill y gêm! Diolch i Mr Euros Jones am hyfforddi'r bechgyn ac i Mr Bents, tad un o fechgyn y tîm, am ei help yn ystod y gêm. Edrychwn ymlaen yn fawr at y rownd nesaf. Pob lwc, fechgyn!

On 07.03.19 the school's rugby team went to Ysgol Dolau to play an important game to decide which school would go forward to the Welsh Schools final on 05.04.19 at Dunvant Rugby Club. Congratulations to the boys for digging in during the scond half and winning the match! Thanks to Mr Euros Jones for training the boys and to Mr Bents, a team member's father, for his help during the game. We look forward to the next round. Good luck, boys!



YMWELIAD MENTER IAITH RHONDDA CYNON TAF
MENTER IAITH RHONDDA CYNON TAF VISITS

Daeth Catrin o Fenter Iaith RhCT a Lauren, cyflwynydd Sesiwn Sul, atom ar 13.03.19 i gynnal gweithdy radio gyda disgyblion Blwyddyn 6. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn ystod y bore ac mae'r plant yn edrych ymlaen yn fawr iawn at glywed y rhaglen radio yn cael ei darlledu cyn bo hir. Rhown wybod i chi pan fydd yn bosibl i bawb wrando arni! Diolch Catrin a Lauren!

Catrin from Menter Iaith RCT and Lauren, the presenter of 'Sesiwn Sul' came to school on 13.03.19 to hold a radio broadcasting workshop with Year 6 pupils. The children had a lot of fun during the morning and they can't wait to hear their recorded programme broadcast on the radio before long. We shall let you know when you'll be able to listen to it! A big thank you to Catrin and Lauren!





Dilynwch ni ar / *Follow us on:* @YGGGLlantrisant